CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD / MEETING 03/10/2017

PRESENNOL: Cadeirydd Mr R G Parry, Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs N Dooley, Mr G Williams.	**PRESENT:** Chairman Mr R G Parry, Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs N Dooley, Mr G Williams.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	**1. Welcome and apologies**
Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Mrs S Roberts a Mrs A E Williams.	Apologies for their absence received from Mrs S Roberts and Mrs A E Williams.
2. Datganiadau Diddordeb. Dim	**2. Declarations of Interest.** None
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 4/9/2017. Derbyniwyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.	**3. Ratify minutes of meeting held on 4/9/2017.** The minutes were accepted as a true record of the meeting.
4. Materion yn codi:	**4. Matters arising:**
(a) Llwybr cyhoeddus Pendref i Carreg y Fran. Adroddiad gan y Cadeirydd ar ymateb y Cyngor Sir i'r sefyllfa bresennol. Y cadeirydd wedi derbyn cadarnhad y bydd y Cyngor Sir yn ceisio cynnwys y gwaith ar eu rhestr waith ar gyfer 2018. Y Cyngor ddim yn fodlon ar hyn, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i ddatgan anfodlonrwydd y Cyngor Cymuned ar y sefyllfa o gymryd ystyriaeth y nifer fawr o flynyddoedd y derbyniwyd yr un ymateb oddi wrth y Cyngor Sir.	(a) Pendref to Carreg y Fran Public footpath. Report by the Chairman on the County Council' response to the present situation. The chairman had received confirmation that the County Council would endeavour to include the work on their work list for 2018. The Council not happy with this, and the Clerk was requested to write to the County Council to express the Community Council's dissatisfaction with the situation taking into account the number of years that the same reply had been received from the County Council.
5. Gohebiaeth:	**5. Correspondence:**
(i) Un Llais Cymru:	**(i) One Voice Wales:**
(a) ageCymru. Llythyr oddi wrth Jayne Bryant AM ac Adroddiad ar Drafodaethau bord gron ar Unigrwydd a ddigwyddodd fis Mehefin diwethaf. Derbyn er gwybodaeth.	(a) ageCymru. Letter from Jayne Bryant AM and a report on a Roundtable discussion on Loneliness that took place last June. For information.
(b) Nodyn cyfreithiol gan NALC ar Ddiwygio Deddfwriaeth Diogelu Data. Y Clerc i ofyn am fwy o wybodaeth am hyn yng nghyfarfod nesaf Un Llais Cymru ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.	(b) Legal briefing by NALC on the Reform of Data Protection Legislation. The Clerk to request more information about this at the next meeting of One Voice Wales and report back to the Council at the next meeting.
(c) Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn i'w gynnal 5 Hydref 2017. Mrs C Lloyd a'r Clerc i fynychu'r cyfarfod.	(c) Anglesey Area Committee meeting. To be held 4 October 2017. Mrs C Lloyd and the Clerk to attend the

	meeting.
(ii) Cyngor Sir Ynys Môn:	**(ii) Isle of Anglesey County Council:**
(a) Linc at Flaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith. Diweddariad mis Medi. Derbyn er gwybodaeth	(a) Link to the Executive's forward work programme. September update. For information
(b) Rhybudd derbyn cais rhif 48C206. Cais cynllunio llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Sunny Dale, Stad Bryntirion. Dim sylwadau.	(b) Notice of receipt of application No. 48C206. Full application for alterations and extensions at Sunny Dale, Bryntirion Estate. No observations.
(iii) Medrwn Môn:	**(iii) Medrwn Môn:**
(a) Cyfleoedd gwirfoddoli a chodi arian gyda Tenovus Cancer Care. Derbyn er gwybodaeth.	(a) Tenovus Cancer Care volunteering and fundraising opportunities. For information.
6. Materion ariannol	**6. Financial matters**
(a) Anfonebau: **£207.75 Swyddfa Archwilio Cymru** - tâl am Archwiliad Ariannol 2016/17; **£135. 00 Moss Computers** - (£75.00) tâl am gyflenwi a gosod dreif caled ar y gliniadur a (£60.00) am barth cyngorgwalchmai.co.uk, e-bost a Norton Medi 2016-18. **£240.00 Anglesey Computer Solutions** - tâl am gynnal a chadw gwefan y Cyngor Hyd.2017 I Hyd. 2019; **£119.00 Royal British Legion** - tâl am 7 torch pabi. Y Clerc i dalu'r anfonebau. Taliad debyd uniongyrchol o **£38.47 i Npower** - tâl am gyflenwad trydan i'r cloc 22/6/17-20/19/17. (b) Derbyniadau: **£415.48 HMRC** - ad-daliad TAW.	(a) Invoices: **£207.75 Wales Audit Office** – payment for Audit of Accounts 2016/17; **£135.00 Moss Computers** – (£75.00) payment for supplying and setting up hard drive on the laptop and (£60.00) for domain cyngorgwalchmai.co.uk. email and Norton September 2016-18, **£240.00 Anglesey Computer Solutions –** payment for website services Oct. 2017 to Oct. 2019**; £119.00 Royal British Legion** – payment for 7 poppy wreaths. The Clerk to pay the invoices. Direct debit payment **£38.47 to Npower** for electricity supply to the clock 22/6/17 – 20/9/2017. (b) Receipts: **£415.48 HMRC** – repayment of VAT.
(c) BDO. Cyflwyno, Cymeradwyo a Derbyn yr adroddiad yn dilyn archwiliad allanol. Cymeradwywyd a derbyniwyd adroddiad ariannol yn dilyn archwiliad allanol. Mae'r diffyg ar y wefan a ganfuwyd yn yr archwiliad wedi'i gywiro'n barod.	(c) BDO. Present, Approve and Accept the report following external audit. The report following extetrnal audit was approved and accepted. The omission from the website identified by the audit has already been rectified.
(c) Adolygiad ariannol chwarterol. Derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.	(c) Quarterly financial review. The Clerk's reports, which show that there is sufficient income and money in reserve to cover the costs to the end of the financial year.
7. Unrhyw fater arall.	**7. Any other matter.**
(a) Gwasanaeth Sul y Coffa, 12 Tachwedd 2017. I'w gynnal yng	(a) Remembrance Sunday Service, 12 November. To be held at Moriah Chapel

Nghapel Moriah am 10.15am.Y Clerc i brynu a thalu am 7 torch pabi, ac i wahodd aelod o Lu Awyr Y Fali i fod yn bresennol. Hefyd trefnu i'r Heddlu fod yn bresennol. Mrs Edna Jones i ofyn i'r prifathro am bresenoldeb plant Ysgol y Ffridd a Mrs Catherine Lloyd i gysylltu â'r Parch Emyr Rowlands ynglŷn â chynnal y gwasanaeth.	at 10.15am. The Clerk tp purchase and pay for 7 poppy wreaths, and to invite an officer from RAF Valley to attend. Also arrange for the Police to be present. Mrs Edna Jones to ask the headmaster for attendance by the pupils of Ysgol y Ffridd, and Mrs Catherine Lloyd to contact Rev Emyr Rowlands regarding conducting the service.
(b) Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref. Erthygl wedi'i weld yn rhifyn diweddar y Daily Post ac ar weplyfr Heddlu Gogledd Cymru yn datgan bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn peri pryder yng Ngwalchmai ac o ganlyniad y byddai mwy o bresenoldeb yr Heddlu i'w weld o gwmpas y pentref. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr Arolygydd Higgins i ddatgan siom y Cyngor am ddiffyg yr Arolygydd i gysylltu â'r Cyngor i adrodd ymhellach ar y sefyllfa ynglŷn â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref fel ar addawodd yng nghyfarfod mis Mehefin. Gan nad oedd cysylltiad wedi'i wneud, y Cyngor wedi cymryd yn ganiataol bod y sefyllfa wedi gwella yn dilyn ymyrraeth yr Heddlu. Gofynnwyd i'r Clerc hefyd ei wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor i esbonio'r sefyllfa bresennol.	(b) Anti-social behaviour in the village. An article had been seen recently in the Daily Post and the North Wales Police facebook stating that anti-social behaviour was causing concern in Gwalchmai and that more police presence would be seen around the village. The Clerk was requested to write to Inspector Higgins to express the Council's disappointment at the Inspector's failure to contact the Council to report further on the anti-social behaviour in the village as he'd promised in the meeting held in June. As no contact had been made, the Council took it for granted that the situation had improved following police intervention. The Clerk was also requested to invite the Inspector to the next Council meeting to explain the present situation.
CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 6 Tachwedd 2017 at 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.	**NEXT MEETING:** The next meeting will be held at the Pensioners' Hall. on Monday 6 November 2017 at 7pm